FFORWM MYNEDIAD LLEOL WRECSAM

COFNODION A GADARNHAWYD

o'r ugeinfed cyfarfod a gynhaliwyd yn Neuadd y Dref, Wrecsam ar 5 Mai 2006

16/06 PRESENOLDEB AC YMDDIHEURIADAU

Presenoldeb:

CADEIRYDD	YSGRIFENYDDES
Ieuan Lewis	Emma Haldane

AELODAU	GWESTEION
John Cooper-Poole	Martin Howorth
Mike Crawshaw	Alun Price (CCGC)
Sue Gittins	Irene Evison
John Marchant	
Mavis McBride	
Clive Menzies	
Margaret Murphy	
Gerald Moss	
Tim Rosselli	

Ymddiheuriadau: Tim Stevens, Gwynfor Jones, Karl Prakel, Mabyn Pickering, Edward Wardle

17/06 MATERION SY'N CODI O GOFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF AR 3 CHWEFROR

Dosbarthwyd y cofnodion drafft i'r aelodau ar 10 Mawrth 2006. Gwnaed rhai mân newidiadau a chadarnhawyd bod y cofnodion yn gywir ar 28 Mawrth 2006.

(39/05) Ystâd Wynnstay - cais am gyfarfod.

Cyfarfu'r aelod Sue Gittins â Chapten Bell o Ystâd Wynnstay ar 25 Ebrill 2006 i drafod mynediad. Dosbarthwyd adroddiad o'r cyfarfod hwnnw i'r holl aelodau ar 2 Mai 2006.

Roedd Capten Bell yn hapus i fynd â'r fforwm ar daith o gwmpas yr ystâd rhywbryd yn y dyfodol.

CYTUNWYD: Aelodau i ymweld â'r ystad.

CAM GWEITHREDU: Ysgrifenyddes i drefnu.

(11/06) Cyngor Cefn Gwlad Cymru – Ysgrifenyddes i ofyn am gopïau o 'Pecyn Gwybodaeth y Côd Cefn Gwlad' i'r aelodau.

Dosbarthwyd copïau yn y cyfarfod.

(13/06) Cydbwysedd y fforwm – Ysgrifenyddes i ysgrifennu at yr aelodau a oedd yn ymddeol.

Anfonwyd llythyr ar 6 Chwefror 2006.

18/06 ADRODDIAD Y CADEIRYDD

Rhoddodd y Cadeirydd adroddiad byr am y Gynhadledd FfMLlau a gynhaliwyd yn Llanfair-ym-Muallt ar 30 Mawrth 2006. Adroddodd fod Mike Ogden (Cadeirydd FfMLl Sir Fynwy a chynrychiolydd FfMLl Cymru ar y Fforwm Mynediad Cenedlaethol) am ymddiswyddo. Gofynnodd nifer o Gadeiryddion y FfMLlau iddo ailystyried ei benderfyniad, ond yn anffodus, nid oedd yn teimlo bod digon o gynnydd yn cael ei wneud. Mynegodd y Cadeirydd bryder ynghylch y golled hon.
Yn anffodus, ni fu'n bosibl i'r siaradwr, Carwyn Jones AM, Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, fynd i'r gynhadledd. Fodd bynnag, daeth Mike Dunn, Pennaeth yr Amgylchedd, Cadwraeth a Rheolaeth i gymryd ei le ar fyr rybudd.

19/06 ADRODDIAD YR YSGRIFENYDDES

- Dosbarthwyd y 'Newyddlen Hamdden a Mynediad' ddiweddaraf i'r aelodau ar ddechrau'r cyfarfod.
- Darllenodd yr ysgrifenyddes lythyr a dderbyniwyd gan Gyngor Cymuned Ceiriog Uchaf yn diolch i'r fforwm am gefnogi ei ymdrechion i gadw'r toiledau cyhoeddus yn Llanarmon DC ar agor yn ystod y gaeaf. Mae'r broblem bellach wedi'i datrys. O fis Ebrill eleni, mae'r toiledau dan reolaeth newydd y Cyngor Cymuned a byddant ar agor trwy gydol y flwyddyn.
  Roedd y Cyngor Cymuned o'r farn bod diddordeb y fforwm yn y mater wedi'i helpu i gyrraedd y canlyniad hwn.
- Derbyniwyd llythyr pellach gan Gyngor Cymuned Ceiriog Uchaf ynghylch problem gyda llwybr. Cadarnhaodd yr ysgrifenyddes ei bod wedi anfon ymateb.
  Dywedodd Mike Crawshaw fod y broblem hon wedi dod i sylw'r cyngor yn y gorffennol. Esboniodd John Marchant os yw'r llwybr yn rhan o lwybr sy'n cael ei hyrwyddo, gellir edrych ar hyn, os yw'r gyllideb yn caniatáu.
- Ychwanegwyd FfMLlau at restr ymgynghori safonol LICC wrth gyhoeddi gorchmynion dan y Ddeddf Priffyrdd. Yn y dyfodol, bydd yn ymgynghori â FfMLlau trwy'r ysgrifenyddion.

20/06 CERBYDAU MODUR YNG NGHEFN GWLAD

(08/06)

- ***Gofynnwyd i'r ysgrifenyddes gysylltu â Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam (AVOW) am wybodaeth am ei hyswiriant a grwpiau gwirfoddolwyr.***
  Cadarnhaodd yr ysgrifenyddes ei bod wedi cysylltu ag Ann Vaughan, Cydlynydd Gwirfoddolwyr AVOW ac wedi cael manylion y cwmni yswiriant. Mae AVOW yn defnyddio Gwirfoddolwyr Cadwraeth yr Ymddiriedolaeth Brydeinig ar gyfer y mwyafrif o brosiectau amgylcheddol a llwybrau, ac mae'r holl wirfoddolwyr wedi'u hyfforddi ac yn cael eu cynnwys yn yswiriant GCYB.
- ***Cytunwyd y byddai'r Cyngor yn cysylltu â Chynghorau Cymuned mewn ardaloedd problemus i ganfod pa waith sydd ei angen.***
  Dywedodd John Marchant nad oedd ei dîm yn ymdrin â Ffyrdd Sirol Annosbarthedig. Cadarnhaodd fod y cais wedi'i anfon ymlaen i'r Rheolwr Cynnal a Chadw Priffyrdd ond nad oedd wedi derbyn ymateb hyd yma. Ar adeg y cyfarfod, nid oedd yn glir p'un a oedd unrhyw un wedi cysylltu â'r Cynghorau Cymuned.

- ***Fforwm i roi manylion CRAG i Tim Stevens i'w dilyn.***
  Yn anffodus, nid oedd Tim Stevens yn bresennol yn y cyfarfod, ond mewn datganiad, gofynnodd i'r fforwm ystyried cysylltu â'r Cyngor eto i ofyn iddo ailystyried ei benderfyniad mewn perthynas ag yswiriant gwirfoddolwyr.

Awgrymodd Clive Menzies y dylid trafod yr eitem hon yng nghyfarfod nesaf y fforwm gan nad oedd Tim Stevens yn bresennol ac ef yw'r prif rym y tu ôl i'r eitem.

CYTUNWYD: Eitem i'w thrafod yn y cyfarfod nesaf dan 'Unrhyw faterion eraill'.

21/06 CYNLLUN GWELLA HAWLIAU TRAMWY

Cyflwynodd Irene Evison fersiwn ddrafft o adroddiad ymgynghoriad y cyfnod asesu i'r fforwm.

Esboniodd ei bod wedi'i chontractio i gefnogi'r Cyngor i roi cyfnod asesu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy at ei gilydd. Byddai hwn yn asesu pa mor ddigonol yw'r rhwydwaith ac o ba sail y mae'r Cyngor yn dechrau, trwy ddilyn cyfarwyddyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Dywedodd fod y ddogfen ddrafft yn dilyn yr hyn y mae LICC ei eisiau'n fras. Roedd elfen fawr o ymgynghori â'r cyhoedd, yr arolwg cyflwr, adolygiad o'r map terfynol a'r adolygiad strategol. Nod yr adroddiad asesu yw dod â'r holl wybodaeth at ei gilydd a thynnu negeseuon allweddol o'r ffynonellau hyn. Erbyn hyn, mae'r adroddiad wedi'i gwblhau.

Gwnaeth Clive Menzies sylw ynghylch pa mor dda y cyflwynwyd y ddogfen. Gwnaed sylwadau pellach gan yr aelodau a chofnodwyd y sylwadau hyn.

Gofynnwyd i'r fforwm edrych ar y ddogfen ymgynghori'n fanylach a rhoi gwybod i'r Cyngor am unrhyw argymhellion fel y gellir dod i gytundeb a chynnal ymgynghoriad cyhoeddus am y ddogfen.

Nid oedd Shelagh Roberts yn cytuno â'r datganiad 'Codi ymwybyddiaeth perchnogion tir er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn cael hawliau tramwy cyhoeddus cyfreithiol dros eu tir' dan 'Awgrymiadau penodol' ar dudalen 45. Tynnodd sylw at y ffaith bod ffermwyr eisoes yn ymwybodol o'u hawliau tramwy ac am nodi na wnaed unrhyw waith i godi ymwybyddiaeth beicwyr mynydd na'r cyhoedd yn gyffredinol.[i]

22/06 FERSIWN DDRAFFT O ADRODDIAD BLYNYDDOL 2005/06

Cytunodd yr aelodau â'r fersiwn ddrafft o'r adroddiad blynyddol a gynhyrchwyd gan Clive Menzies.

CAM GWEITHREDU: Cyflwyno'r adroddiad blynyddol i CCGC.

23/06 ADRODDIAD Y FFORWM MYNEDIAD CENEDLAETHOL

Rhoddodd Clive Menzies adroddiad gan amlinellu'r eitemau a drafodwyd rhwng mis Rhagfyr 2005 a mis Mawrth 2006:

- Adroddodd fod FfMCau Cymru a Lloegr am gyfarfod ym mis Mehefin 2006 i drafod 'Annog Mynediad i'r Awyr Agored'.
- Soniwyd am 'Mynediad i'r Arfordir'. Rhoddwyd rhyw arwydd y gallai hyn gynnwys dyfroedd nad ydynt yn llanwol hefyd a gofynnwyd p'un a oedd hyn yn cael ei ystyried yn y Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy?
- Codwyd 'Cŵn' fel pwnc unwaith eto. Ymddengys bod hyn yn bryder ym mhob ardal mynediad yn genedlaethol.
- Mae'r FfMC yn dechrau edrych ar safonau ar gyfer llwybrau cenedlaethol.

- Mae strategaeth Cerdded a Beicio wedi'i datblygu ac mae i fod i gael ei chyhoeddi ym mis Gorffennaf. Mae rhai pryderon o hyd ynghylch gallu LlCC i gydgysylltu cludiant a chefn gwlad.
- Daeth cofrestrau HTC i rym ym mis Ionawr 2006. Bydd angen y rhain erbyn mis Gorffennaf 2006.
- Trafodwyd anghenion hyfforddiant y FfMLl.
- Ni fydd LlCC na CCGC yn anfon cynlluniau gweithredu drafft at FfMLlau.
- Adroddodd fod astudiaeth y Swyddfa Archwilio, sef 'Mynediad Cyhoeddus i Gefn Gwlad' yn cael ei chyhoeddi ym mis Gorffennaf ac y byddai'n debygol o ddweud bod mynediad agored wedi bod yn dda a chanmol y FfMLlau. Fodd bynnag, mae'n debygol o ddod i'r casgliad bod hawliau tramwy'n gyffredinol wael ac yn gwaethygu o bosibl.
- Tynnodd aelod y FfMC, Tim Stevens, sylw at y modd anghyson a llafurus y cwblheir ymgynghoriadau am hawliau tramwy ar hyn o bryd a gofynnodd am system safonol sy'n cyfateb i'r system yn Lloegr. Bydd hyn yn cael ei symud ymlaen.

24/06 ADRODDIAD GAN Y CEIDWAID MYNEDIAD

Cyflwynodd John Marchant adroddiad a baratowyd gan y Ceidwaid Mynediad, Sion Roberts a Dave Smith, am waith a gwblhawyd yn y sir yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf.

- Roedd gwaith wedi dechrau'n ddiweddar i strimio'r glaswellt ar lwybrau troed a llwybrau ceffylau amrywiol ar draws y sir.
- Gwnaed gwelliannau sylweddol i nifer o lwybrau trefol yn y Rhos, y Bers, Allington a llwybr yn Garden Village.
- Mae trigolion Bwlchgwyn wedi mynegi diddordeb mewn gwella eu rhwydwaith llwybrau troed. Cwblhawyd gwaith ar lwybr troed 80 ym Mrymbo sy'n rhedeg ar hyd ymyl ddwyreiniol chwarel Bwlchgwyn. Erbyn hyn mae'r pryder cyhoeddus ynghylch llinell gywir y llwybr wedi'i ddatrys.
- Mae Sion i fod i arwain dwy daith gerdded o gwmpas Rhiwabon yn yr ychydig fisoedd nesaf. Gellir dod o hyd i fanylion y rhain ar wefan y Cyngor: www.wrexham.gov.uk/walks
- Ni adroddwyd am unrhyw faterion arwyddocaol mewn perthynas â cherddwyr a mynediad agored ac ni wnaed unrhyw geisiadau am gyfyngiadau na gwaharddiadau.
- Gan weithio ar y cyd â CCGC, Cyngor Sir Ddinbych a'r RSPB, aeth y Ceidwad Mynediad, Dave Smith, i gyfrif grugieir duon yn y guddfan adar yng nghoedwig Llandegla sydd newydd ei hadnewyddu. Cyfrifodd 7 o wrywod a oedd wedi paru. Roedd hyn yn arwydd da o boblogaeth gyson o grugieir.

25/06 CYNGOR CEFN GWLAD CYMRU

Ni chafwyd adroddiad y tro hwn.

26/06 CEISIADAU CYNLLUNIO

Gan fod Sir Wrecsam yn profi adnewyddiad trwy nifer o ddatblygiadau newydd a phwysig, adroddodd Clive Menzies y byddai rhai o'r datblygiadau hyn yn effeithio ar y rhwydwaith Hawliau Tramwy. Rhoddwyd nodiadau cyfarwyddyd ymarferol ynghylch Hawliau Tramwy at ei gilydd gan sector eang o gyrff cyhoeddus, elusennau a mudiadau â diddordeb, ynghyd â chyfarwyddyd manwl mewn perthynas â'r rhwydwaith Hawliau Tramwy. Gan ei fod yn debygol mai'r cyfarwyddyd hwn yw'r arfer gorau, gofynnodd i'r fforwm argymell y Cyngor i

fabwysiadu nodiadau cyfarwyddyd 1 i 6 y Pwyllgor Adolygu Hawliau Tramwy fel polisi ar gyfer ei swyddogion.
Gofynnodd hefyd i'r aelodau argymell i'r fforwm gael ei ychwanegu at y rhestr o holedigion lle amodir hynny yn y canllawiau. Yn amodol ar gymeradwyaeth gan y Cyngor, byddai'r Fforwm Mynediad Lleol yn creu strwythur i'w alluogi i weithio o fewn y terfynau amser penodol sy'n ofynnol dan y rheoliadau.

Roedd y Cadeirydd a John Cooper-Poole yn poeni ynghylch pa mor realistig oedd i'r fforwm gael ei gynnwys yn yr ymgynghoriadau, gan nad yw'n cyfarfod yn aml iawn a gallai hyn arwain at oedi o ran prosesau ceisiadau. Roedd Shelagh Roberts dan yr argraff fod unrhyw geisiadau cynllunio a dderbynnir yn cael eu gwirio'n barod.
Dywedodd John Marchant fod ei adran ef eisoes yn cael ei holi gan yr Adran Gynllunio. Mae'r rhestr o geisiadau cynllunio yn cael ei monitro ac mae unrhyw bryderon yn cael eu hamlygu.
Gan fod Wrecsam yn tyfu'n gyflym iawn, cytunodd Sue Gittins y dylai'r fforwm fod yn rhan o'r ymgynghoriadau, er nad oedd Mike Crawshaw o'r farn y byddai'r fforwm yn cael llawer o ddylanwad. Mewn ymateb i hyn, dywedodd Clive Menzies fod y fforwm yn bwyllgor statudol ac y byddai'n cael dylanwad ac yn gallu cynnig mewnbwn gwerthfawr.

CYTUNWYD: Anfon llythyr ar y Prif Weithredwraig ynghyd â chopi at y Prif Swyddog Cynllunio yn gofyn i'r Cyngor fabwysiadu'r nodiadau cyfarwyddyd.

27/06 GORCHMYNION ADDASU'R MAP TERFYNOL

Rhoddwyd adroddiad gan Clive Menzies am y gorchmynion sy'n weddill yn y fwrdeistref sirol.
Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mehefin 2005, cafodd y Fforwm Mynediad Lleol restr o'r gorchmynion sy'n weddill. Roedd nifer yr eitemau a oedd yn weddill wedi cynyddu gyda rhai ohonynt yn bymtheg mlwydd oed.

Adroddwyd rhwng 1 Ebrill 2005 a diwedd mis Mawrth 2006, fod:
26 o geisiadau wedi'u cario ymlaen
5 o geisiadau wedi'u derbyn
0 o geisiadau wedi'u prosesu
31 o geisiadau'n weddill

Roedd rhai aelodau o'r fforwm yn siomedig i weld bod nifer y gorchmynion sy'n weddill wedi cynyddu o bump ac erbyn hyn yn dod i gyfanswm o dri deg un, ac nad oedd unrhyw orchmynion addasu'r map terfynol wedi'u cwblhau yn y misoedd cyfamserol.
Dywedodd John Marchant, o'r 31 o orchmynion a oedd yn weddill, roedd llawer o'r llwybrau hyn ar agor i'r cyhoedd.
Mynegodd yr aelod Tim Rosselli nad oedd rhai materion mewn perthynas â gorchmynion yn syml bob amser ac y gallai gymryd peth amser i ddatrys y materion hyn gyda'r adnoddau sydd ar gael yn y Cyngor.

Cynnig: Cynigodd Sue Gittins y dylai'r fforwm ysgrifennu at y Prif Weithredwraig gan ddweud y dylai'r sefyllfa gael ei datrys ar fyrder.
Cefnogwyd: Clive Menzies

CAM GWEITHREDU: Ysgrifenyddes i ysgrifennu

CYTUNWYD: Cario'r eitem ymlaen i'w thrafod eto ymhen 12 mis

28/06 UNRHYW FATERION ERAILL

- Gofynnodd yr aelod Shelagh Roberts a fyddai modd rhoi cadarnhad i'r aelodau am yr hyn y gall y cyhoedd ei wneud mewn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Cyfeiriodd Alun Price, CCGC, yr aelodau at rifyn diweddaraf y 'Newyddlen Hamdden a Mynediad' dan adran 2 'Hawliau Tramwy'. Gofynnodd Shelagh Roberts a fyddai modd gwneud mwy ynghylch arwyddion. Adroddodd fod problemau â beiciau modur wedi cael cyhoeddusrwydd, gan y gwelwyd hofrenyddion yn monitro ardaloedd a bod rhybuddion wedi'u cyhoeddi, ond roedd yn parhau i gael problemau gyda beicwyr a phobl yn marchogaeth yn ei hardal. Cytunodd Alun Price yn anffodus bod nifer fechan o feicwyr/marchogion nad ydynt yn aelodau o glybiau neu gymdeithasau penodol sy'n anwybyddu'r rheolau ac yn achosi problemau. Esboniodd fod addysg yn ffactor bwysig ac y dylid cydweithio â'r heddlu yn y lle cyntaf. Gallai'r cyhoedd weithio gyda'i gilydd i roi gwybod i'w gilydd ac atgyfnerthu'r neges.

- Roedd yr aelod Gerald Moss yn poeni bod y 'Côd Cefn Gwlad' yn cael ei anwybyddu. Roedd wedi gweld mwy a mwy o berchnogion cŵn yn eu gadael oddi ar eu tenynnau mewn modd anghyfrifol mewn ardaloedd gwledig. Adroddodd fod rhyw 50% o'r cŵn a welodd ar wyliau yn Lloegr yn ddiweddar ar dennyn. Yng Nghymru, roedd wedi sylwi bod y ganran yn is o lawer.
  Cytunodd nifer o'r aelodau fod hyn yn ymwneud ag addysg.
  Cyfeiriodd Clive Menzies at adroddiad y FfMC a'r pryderon a godwyd – mae'r rhain yn cael eu datrys. Awgrymodd y dylai'r fforwm ysgrifennu at y FfMC i ofyn am fwy o gyhoeddusrwydd. Cyfeiriodd Alun Price yr aelodau at dudalen 10 o'r 'Newyddlen Hamdden a Mynediad' ddiwethaf lle codwyd y pwnc.

CYTUNWYD: Fforwm i ysgrifennu at y FfMC ynghylch eu pryderon

29/06 EITEMAU AR GYFER AGENDA'R CYFARFOD NESAF

- Parcio mewn encilfeydd
- Materion cyllidebol
- Hyfforddiant i'r aelodau
- Cydbwysedd y Fforwm
- Asesiadau Mynediad i Bobl Anabl i'r Rhwydwaith HTC

30/06 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Dydd Gwener, 7 Gorffennaf 2006
Cyfarfod y Fforwm i ddechrau am 1.45pm yn **Ystafell Bwyllgor 2, Neuadd y Dref,** Wrecsam.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.30pm.

---

[i] **Nodyn**: Gan gyfeirio at y llyfryn 'Cerdded ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam a'r Cyffiniau', roedd Shelagh Roberts am i'r Cyngor nodi y cafwyd hyd i'r llun o'r grug ar y clawr blaen yn Sir Ddinbych ac nid yn Sir Wrecsam a theimlodd fod hyn yn

gamarweiniol. Crybwyllodd hefyd fod nifer o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig wedi'u hyrwyddo yn yr ardal ond nad oedd unrhyw sôn am y rhain yn y daflen.

Ysgrifenyddes y Fforwm, Emma Haldane, Tu Cefn i Dŷ Kelso, 13 Ffordd Grosvenor, Wrecsam, LL11 1DB.
Ffôn: 01978 267099 Ffacs: 01978 267155
E-bost: laf@wrexham.gov.uk Gwefan y Fforwm: www.wrexham.gov.uk/laf